Máté Miklós Fodor, Marlen Komorowski & Sara Pepper

# Mapio Canolfannau Creadigol yng Nghymru

Hydref 2022

# *Tabl Cynnwys*


***Rhagair*...3**

***Crynodeb Gweithredol*...5**

***1 Cyflwyniad*...8**

**1.1 Amcanion...8**

**1.2 Methodoleg...9**

***2 Y dirwedd o ran canolfannau creadigol yng Nghymru*...11**

**2.1 Daearyddiaeth...11**

**2.2 Proffil...14**

2.2.1 Dulliau gweithredu a phriodoleddau...14
2.2.2 Aelodaeth canolfannau creadigol yng Nghymru...19

***3 Gweithgarwch a chenhadaeth*...22**

**3.1 Cyfleusterau a mwynderau...22**

**3.2 Ymrwymiadau i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig...23**

**3.2 Effaith...27**

3.2.1 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant...27
3.2.2 Amcanion...28

***4 Rhagolygon y dyfodol*...32**

**4.1 Heriau...32**

**4.2 Hyder am weithgarwch yn y dyfodol...36**

**4.3 Gallu i wrthsefyll siociau...40**

***5 Enghreifftiau o ganolfannau creadigol yng Nghymru*...42**

**5.1 Caerdydd Creadigol...42**

**5.2 TAPE – Ffilm a cherddoriaeth gymunedol...43**

**5.3 elysium...44**

**5.4 ProMo-Cymru...45**

**5.5 NoFit State...47**

***6 Casgliadau*...48**

***Atodiad: Rhestr o ganolfannau creadigol yng Nghymru*...50**

# Rhagair

Ers 2014, mae'r British Council wedi bod yn gweithio gyda thros fil o ganolfannau creadigol ledled y byd. Yn ogystal â gweld canolfannau creadigol fel cymunedau sy'n gefn i weithwyr proffesiynol yn y meysydd creadigol, rydym hefyd yn eu gweld fel platfformau catalyddu sy'n cyfrannu i economi greadigol gynhwysol a chynaliadwy.

Ein diffiniad ni o ganolfan greadigol yw 'man ffisegol neu rithwir sy'n dod â phobl fentrus sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol at ei gilydd'. Ond, rydym yn cydnabod y gellir defnyddio nifer o ddiffiniadau gwahanol ar gyfer mannau creadigol, ac mae'n bosib na fyddai'r diffiniad yma o 'ganolfan greadigol' yn cyd-fynd â diffiniad llawer o sefydliadau o gwmpas y byd.

Yn ystod yr wyth mlynedd ddiwethaf, mae'r British Council wedi datblygu amrywiaeth o raglenni, gwaith ymchwil ac adnoddau sy'n rhoi lle canolog i ganolfannau creadigol. Mae'r rhain yn amrywio o'r Creative HubKit a ddatblygwyd gan Creative Edinburgh a Creative Dundee ac sydd wedi cael ei gyfieithu i nifer o wahanol ieithoedd; a'r Pecyn Cymorth i Arweinwyr Canolfannau Creadigol (a ddatblygwyd gan y British Council, Hivos a Nesta) a gyhoeddwyd yn 2020 gan gynnig adnoddau ymarferol ar gyfer datblygu model busnes eich canolfan greadigol; i raglenni fel 'Hubs for Good' yn Ne-ddwyrain Asia a oedd yn hybu canolfannau creadigol fel sbardunau allweddol a chatalyddion er da mewn dinasoedd; neu 'Hubs as Hosts' a fu'n gyfrwng i ddod ag aelodau o ganolfannau creadigol o bob rhan o'r byd i'r Deyrnas Unedig i gysylltu, cydweithio a rhannu gwersi a ddysgwyd gydag amrywiaeth o ganolfannau creadigol yn y Deyrnas Unedig. Gallwch ddarllen mwy am ein gwaith yn y maes yma: [creativeconomy.britishcouncil.org/](creativeconomy.britishcouncil.org/)

Cyn pandemig COVID-19, roeddem wedi bwriadu mapio canolfannau creadigol ymhob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig mewn ymdrech i ddiweddaru'r corff o wybodaeth am ganolfannau creadigol a'u hecosystemau. Mae'r gwaith mapio yma'n cynnig ffynhonell sylweddol o wybodaeth, sy'n ein helpu i ddeall sut mae'r sector wedi esblygu, yr effaith y mae canolfannau creadigol yn ei gael a'r tueddiadau

diweddaraf. Hefyd, mae'r gwaith mapio yma'n adnodd gwerthfawr i ni ar gyfer ein gwaith rhyngwladol, gan amlygu cyfoeth ac amrywiaeth y dirwedd o ran canolfannau creadigol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r adroddiad hwn yn gyflwyniad i'r sefyllfa yng Nghymru. Ein nod yw meithrin dealltwriaeth linell sylfaen o leoliad canolfannau creadigol yng Nghymru a natur eu llwyddiant a'u hanghenion a'r heriai a wynebir ganddynt. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried effeithiau cymdeithasol ac economaidd canolfannau creadigol a'u gallu i ymateb i heriau byd-eang. Mae'n cyd-fynd â'r adroddiadau Mapio Canolfannau Creadigol a gyhoeddwyd gennym yn 2020 ar gyfer yr Alban, yn 2021 ar gyfer Lloegr ac yn gynharach yn 2022 ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Hoffem ddiolch a datgan ein gwerthfawrogiad i aelodau'r gymuned greadigol yng Nghymru am fod mor hael gyda'u hamser a'u cyfraniad i waith yr ymchwil yma, a thîm yr Uned Economi Greadigol ym Mhrifysgol Caerdydd a gyflawnodd yr ymchwil gyda brwdfrydedd a sensitifrwydd, gan weithio'n ddi-dor drwy gyfnod anodd y pandemig.

British Council

Yr Economi Greadigol a Chymru

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o brosiectau mapio canolfannau creadigol a gomisiynwyd gan y British Council ac a gynhaliwyd ar draws y Deyrnas Unedig. Yn ein hastudiaeth, gwnaethom nodi 147 o ganolfannau creadigol yng Nghymru (drwy ddadansoddi data arolwg o 34 o ganolfannau).  Mae canolfan greadigol yn fan ffisegol neu rithwir sy'n dod â phobl fentrus sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol at ei gilydd. Maent yn gymunedau sy'n gefn i weithwyr proffesiynol yn y meysydd creadigol, yn ogystal â bod yn blatfformau sy'n cyfrannu i economi greadigol gynhwysol a chynaliadwy. Mae'r diffiniad yma'n dangos fod 'canolfannau creadigol' yn cwmpasu amrywiaeth eang o sefydliadau a rhwydweithiau sydd â gwahanol fecanweithiau cymorth ar gyfer y diwydiannau creadigol. Rydym wedi canfod fod canolfannau creadigol yng Nghymru yn cynnwys ystod eang o sefydliadau amrywiol sy'n esblygu drwy'r amser gan gynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth i'w cymunedau.

### Daearyddiaeth

Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau creadigol Cymru wedi eu lleoli yn Ne-ddwyrain y wlad, yn fwyaf penodol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd - rhanbarth o 10 o awdurdodau lleol o Ferthyr yn y gorllewin i Sir Fynwy yn y dwyrain. Ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd y mae'r crynhoad mwyaf o ganolfannau creadigol yng Nghymru. Yn ogystal, mae cyfran nad yw'n ddibwys o ganolfannau creadigol yng Ngogledd Cymru. Yn nodweddiadol, gwelwyd fod canolfannau creadigol yng Nghymru yn darparu ar gyfer gweithwyr creadigol yn eu milltiroedd sgwâr (ar lefel gymunedol a/neu drefol).

### Proffil

O ran amrywiaeth y sefydliadau dan sylw, canfu'r ymchwil fod y rhan fwyaf o ganolfannau creadigol yng Nghymru wedi hen ennill eu plwyf ac wedi bod yn gweithredu ers 10 mlynedd neu fwy. O ran nifer eu haelodau, gwelwyd dau begwn.

Mae gan lawer o ganolfannau dros 1000 o aelodau, tra bod gan yr un gyfran o ganolfannau fwy na 10, ond llai na 50 o aelodau.

### Gweithgarwch a chenhadaeth

Mae canolfannau creadigol yng Nghymru’n cynnig ystod eang o wasanaethau ac amrywiaeth nodweddiadol o gyfleusterau a mwynderau - o ofod stiwdio i gefnogaeth fusnes. Mae gan y rhan fwyaf o ganolfannau creadigol yng Nghymru gysylltiadau â’r celfyddydau perfformio, crefftau a ffilm, ond hyd yma mae eu hymwneud â sectorau Gwybodaeth Dechnoleg yn gyfyngedig. O ran effaith gymdeithasol, canfu’r arolwg fod gan fwyafrif y canolfannau creadigol (tua 90%) fesurau pendant a chroyw ar waith ar gyfer nifer o’r nodau datblygu cynaliadwy a ddiffinir gan y Cenhedloedd Unedig. Mae’r nodau mwyaf pwysig i ganolfannau creadigol yng Nghymru yn cynnwys: Dim tlodi; Iechyd a llesiant da; Addysg o ansawdd; a Chydraddoldeb rhywiol. Dim ond lleiafrif (rhwng 20-30% o’r canolfannau) sydd â mesurau pendant yn eu lle o ran:  Defnyddio a Chynhyrchu’n gyfrifol; Lleihau anghydraddoldeb; a Dinasoedd a Chymunedau cynaliadwy. O ran nodau cymdeithasol ac economaidd eraill, mae’r rhan fwyaf o’r canolfannau (60-90%) yn nodi fod addysg a hyfforddiant, datblygu dulliau cydweithio a hybu diwydiannau creadigol yn amcanion pwysig iawn iddynt.

### Rhagolygon a heriau

Mae’r rhan fwyaf o ganolfannau creadigol yng Nghymru’n nodi fod ansicrwydd ynglyn ag ariannu a maint eu baich gwaith yn heriau sylweddol a wynebir ganddynt bob dydd. Yn ychwanegol, mae’r rhan fwyaf o ganolfannau’n nodi fod profi eu gwerth neu wynebu diffyg dealltwriaeth o’r tu allan o’u gwerth, cyrraedd neu ddenu busnesau creadigol newydd, gwaith rheoli dydd i ddydd a rhyngwladoli yn heriau llai amlwg ond ddim, serch hynny’n ddibwys, ac eithrio rhyngwladoli. Yn gyffredinol, wrth ystyried heriau’r dyfodol, mae gan ganolfannau creadigol yng Nghymru ragolwg optimistaidd – o ran nifer eu haelodau, datblygu cysylltiadau a rhwydweithiau, gweithio gyda’r gymuned leol, cynyddu neu gynnal gwasanaethau, rhagleni a

chynhyrchion a mabwysiadu dulliau arloesol. Mae canolfannau creadigol yng Nghymru ychydig yn llai optimistaidd ynglyn â'u cynaliadwyedd ariannol a dylanwad gwleidyddol lleol neu genedlaethol eu sefydliadau. Gwelwyd hefyd fod canolfannau creadigol wedi dioddef sgil-effeithiau negyddol oherwydd Brexit a Covid-19. Roedd tua 80% o'r holl ymatebwyr yn nodi eu bod wedi dioddef sgil-effeithiau niweidiol neu led negyddol o ganlyniad i'r ddwy sioc yna. Ond hefyd, nododd bron i 15% o'r canolfannau eu bod wedi gweld rhywfaint o fudd neu fudd sylweddol ar draul Covid-19 wrth orfod digido ac ail-strwythuro eu gwasanaethau.

**Casgliadau**

Mae'r dirwedd o ran canolfannau creadigol yng Nghymru wedi hen ennill ei phlwyf dros y ddegawd ddiwethaf drwy waith amrywiaeth eang o sefydliadau a rhwydweithiau. Oherwydd y cyfyngiadau a wynebodd canolfannau creadigol yng Nghymru yn ystod Covid-19, mae'r broses o ddigido ac ail-strwythuro gwasanaethau wedi newid eu dulliau gweithio. Ond, mae canolfannau creadigol yng Nghymru yn dal i wynebu nifer o heriau gan gynnwys ansicrwydd o ran cynaliadwyedd ariannol, a chydnabyddiaeth gyfyngedig gan lunwyr polisi er gwaetha'r ffaith eu bod yn chwarae rhan bwysig o ran creu mesurau cadarn ar gyfer nodau datblygu cymdeithasol. Mae Brexit wedi cael effaith sylweddol ar ganolfannau creadigol yng Nghymru gan gynnwys effeithio ar eu gwaith allgyrch rhyngwladol. Mae ein hymchwil yn dangos bod lle o hyd i uchelgeisiau newydd o ran tirwedd canolfannau creadigol yng Nghymru – uchelgeisiau a allai chwarae rhan fwy arwyddocaol o ran arloesi, anghydraddoldeb, cynaliadwyedd a rhyngwladoli yn ein diwydiannau creadigol lleol.

# 1 Cyflwyniad

Cafodd yr ymchwil hwn ei gynnal gan yr Uned Economi Greadigol ym Mhrifysgol Caerdydd[1] a gomisiynwyd gan y British Council i fapio canolfannau creadigol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gorff mwy o waith i'r British Council – yn mapio canolfannau creadigol ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Nod y gwaith oedd adnewyddu corff o wybodaeth y British Council am ganolfannau creadigol a'u hecosystemau. Yn 2020 a 2021, cyhoeddwyd adroddiadau Mapio Canolfannau Creadigol yn yr Alban[2] a Mapio Canolfannau Creadigol yn Lloegr[3].

Prif amcan yr adroddiad hwn yw cyfrannu i'r corff mwy hwnnw o waith drwy ddarparu cofnod o ganolfannau creadigol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru astudiaeth a gynhaliwyd yn 2017-2018. Effaith economaidd canolfannau creadigol oedd prif ffocws yr adroddiad ymchwil cyntaf hwnnw. Nod y British Council yw ymestyn y dull gweithredu a chydnabod yr angen am adnodd mwy cyfannol sy'n dadansoddi meysydd effaith eraill, ar gyfer y sector yn ogystal â rhanddeiliaid y tu allan i'r sector.

## 1.1 Amcanion

Bwriedir i'r adroddiad hwn fod yn adnodd sy'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yng Nghymru i'w ddefnyddio wrth wneud argymhellion i bartneriaid, ariannwyr, llunwyr

---

[1] Sefydlwyd yr Uned Economi Greadigol yn 2014 i gefnogi economi greadigol y ddinas ac annog pobl i weithio gyda'i gilydd i godi uchelgeisiau'r ddinas yn y maes yma: https://www.cardiff.ac.uk/creative-economy

[2] Ar gael ar-lein yma: https://creativeconomy.britishcouncil.org/media/resources/Mapping_Creative_Hubs_In_England_.pdf

[3] Ar gael ar-lein yma: https://creativeconomy.britishcouncil.org/media/resources/Mapping_Creative_Hubs_Scotland_report.pdf

polisi ayb. Yn ogystal, mae'n adnodd ar gyfer y canolfannau creadigol yng Nghymru eu hunain i hwyluso dealltwriaeth o bwy yw eu cydweithwyr a natur y profiadau sy'n gyffredin rhyngddynt a/neu'r heriau y maent yn eu hwynebu. Amcanion penodol yr ymchwil hwn oedd:

- Deall ym mhle mae canolfannau creadigol wedi eu lleoli yng Nghymru,
- Dangos priodoleddau llinell sylfaen canolfannau creadigol yng Nghymru,
- Deall sut mae canolfannau creadigol yn gweithio,
- Deall yr heriau y maent yn eu hwynebu,
- Dangos sut y maent yn cydweithio'n rhyngwladol,
- Deall eu heffeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd.

Hefyd, bwriedir i'r adroddiad hwn fod yn gyfrwng i hyrwyddo economi greadigol Cymru i gynulleidfa ehangach yn ogystal â bod yn adnodd i gymharu tueddiadau cyffredin canolfannau creadigol ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig.

## 1.2 Methodoleg

Gan ddefnyddio'r diffiniad uchod[4], rydym wedi nodi 148 o ganolfannau creadigol yng Nghymru. Rydym wedi llwyddo i gael manylion cyswllt ar gyfer 121 o'r rhain. Rydym yn cydnabod nad yw cyfanswm y nifer o ganolfannau creadigol a nodir yn yr adroddiad hwn yn gyflawn, ac rydym yn tybio nad yw ein proses ymchwil wedi nodi nifer o ganolfannau creadigol llai neu rai sydd newydd agor eu drysau.

[4] Diffinnir canolfan greadigol fel 'man ffisegol neu rithwir sy'n dod â phobl fentrus sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol at ei gilydd'. Gweler British Council: 'Creative Hubs and Communities'; neu Nesta: 'The Value of Creative Hubs' (16 Awst 2018).

Gwnaethom arolwg o'r canolfannau a nodwyd gennym[5]. Fe wnaethom lunio arolwg ar-lein syml a byr yn cynnwys 25 o gwestiynnau o sylwedd. Danfonwyd y rhain at y canolfannau mewn dwy don – y gyntaf rhwng Ebrill-Mai 2022, a'r ail ym mis Mehefin 2022. Derbyniwyd ymatebion gan 34 o'r canolfannau.

Gan mai nifer cymharol fach o ymatebion a dderbyniwyd, nid ydym wedi gallu cyflwyno dadansoddiad canrannol union o'r atebion bob tro. Felly, rydym yn cyflwyno atebion cyfanredol yn yr adroddiad hwn, a brasamcan o'r canrannau ar sail hynny. I sicrhau gwiriad cadarn o'n gwaith, rydym wedi ceisio cyfosod y map isod (Ffigur 1) gyda dosraniad daearyddol cyflogaeth yn y sectorau creadigol yng Nghymru, fel y nodwyd gan yr Adran Digidol Diwylliant Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)[6]**.** Mae'r ddau fap yn debyg iawn i'w gilydd, yn enwedig o ran y crynodiad trwm a welir yn Ne Cymru (Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe), gweithgarwch sylweddol yng Ngogledd Cymru, a chyflogaeth cymharol fach mewn meysydd creadigol yng Nghanolbarth Cymru yn ogystal â nifer fach o ganolfannau creadigol. Mae'r tebygrwydd yma'n dangos nad yw ein system wedi tangynrychioli na gor-gynrychioli unrhyw ardal benodol wrth nodi canolfannau creadigol.

Yn gyffredinol, ein bwriad gyda'r set data yma oedd nodi themau, strwythurau a phynciau perthnasol a all ein helpu i adlewyrchu'r dirwedd bresennol o ran canolfannau creadigol yng Nghymru.

---

[5] Noder: Ni wnaethom lwyddo i gysylltu â 15 o'r canolfannau a fapiwyd. Mae'n bosib nad yw rhai o'r canolfannau hyn yn gweithredu bellach ac mae'n bosib fod hynny'n rhannol oherwydd argyfwng Covid-19. Serch hynny, gan nad ydym wedi llwyddo i ddod i gasgliad am eu gweithgarwch presennol, nid ydym wedi eu tynnu o'r sampl.

[6] I weld y map, gweler Fodor, M. M., Komorowski, M. & Lewis, J. (2021). Adroddiad Clwstwr ar y Diwydiannau Creadigol Rhif 1.2 – 'Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Yr Adroddiad: Maint a Chyfansoddiad y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru yn 2019'. Cyfres Cyhoeddiadau Clwstwr, Caerdydd, Clwstwr (t.12). Ar gael ar-lein yma: 'Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Yr Adroddiad: Maint a Chyfansoddiad y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru yn 2019'

## 2 Y dirwedd o ran canolfannau creadigol yng Nghymru

### 2.1 Daearyddiaeth

**Ffigur 1: Lleoliad canolfannau creadigol yng Nghymru**




Lleolir y mwyafrif mawr o'r canolfannau creadigol yng Nghymru a nodwyd gennym naill ai yn y De-ddwyrain neu yn y Gogledd. Lleolir 51% o'r canolfannau y gwnaethom gysylltu â nhw yng Nghaerdydd a Chasnewydd, tra bod 15% ohonynt yn Abertawe. Lleolir 25% o'r canolfannau creadigol yng Ngogledd Cymru – y mwyafrif ohonynt yn Llandudno ac Ynys Môn. Mae canolfannau creadigol yn brin yng Nghanolbarth Cymru. Yn Aberystwyth y lleolir mwyafrif y canolfannau a nodwyd gennym yng Nghanolbarth Cymru. Mae Ffigur 1 (uchod) yn dangos trosolwg cartograffig o leoliadau daearyddol canolfannau creadigol yng Nghymru[7]. Rydym wedi darparu rhestr o'r canolfannau creadigol a ddangosir ar y map yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Ymddengys nad yw cyrhaeddiad canolfannau creadigol yng Nghymru mor eang â hynny – fel y dengys Ffigur 2. Mae tua thraean o'r holl ganolfannau yn gweithredu (drwy swyddfa a mannau creadigol) ar lefel leol (cymdogol) lle mae'r gweithwyr creadigol sy'n defnyddio'r cyfleuster yn byw yn agos iawn i'r ganolfan. Mae tua un o bob pump o'r canolfannau a ymatebodd yn nodi fod ganddynt gyrhaeddiad ar draws y ddinas gyfan, tra bod cwmpas ehangach a mwy rhanbarthol ei natur gan oddeutu 29%. Llai na 20% yn unig o'r canolfannau creadigol sy'n darparu ar gyfer aelodau neu bartneriaid cenedlaethol neu ryngwladol.

[7] Noder bod lleoliadau daearyddol y 34 o ganolfannau a ymatebodd yn bur gynrychioladol o'r holl ganolfannau creadigol y gwnaethom gysylltu â nhw ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae tua 50% o'n hymatebwyr yn gweithio / cynnal gweithgarwch yn Ne-ddwyrain Cymru, a 30% yng Ngogledd Cymru. Lleolir gweddill yr ymatebwyr yng Nghanolbarth Cymru.

**Ffigur 2: Cyrhaeddiad canolfannau creadigol yng Nghymru**





Er bod llai na 10% o ganolfannau creadigol yng Nghymru yn nodi fod cwmpas rhyngwladol i'w gwaith, nid yw eu gweithgarwch o ran cydweithio ar draws ffiniau yn ddibwys. Yn naturiol, gall canolfannau creadigol â ffocws lleol ehangu eu gorwelion yn rhyngwladol o bryd i'w gilydd.

Mae mwy na thraean o'r holl ymatebwyr yn nodi eu bod wedi sefydlu cytundebau a phartneriaethau rhyngwladol gyda gweithwyr creadigol unigol, sefydliadau neu ganolfannau creadigol eraill (Gweler Ffigur 3 isod). Mae chwarter o'r canolfannau creadigol yng Nghymru wedi mynd gam ymhellach gan nodi eu bod wedi cydweithio i greu cynhyrchion a methodoleg newydd gyda phartneriaid rhyngwladol neu wedi cyrraedd defnyddwyr/prynwyr rhyngwladol ar gyfer eu hallbwn. Mae tua un o bob pump o'r holl ymatebwyr yn nodi eu bod wedi trefnu digwyddiadau gyda chanolfannau o wledydd neu ranbarthau eraill. Ar yr un pryd, mae canolfannau nad ydynt yn cydweithio'n rhyngwladol o gwbl (neu sydd â ffurf lac iawn yn unig o bartneriaeth ryngwladol) yn gymharol brin – dim ond tua un o bob chwech o ganolfannau creadigol yng Nghymru.

**Ffigur 3: Mentrau cydweithio rhyngwladol sy'n deillio o ganolfannau creadigol yng Nghymru[8]**

[8] Noder: Gall cyfanswm canrannau fod yn fwy na 100 gan fod dewis gan ymatebwyr i dicio mwy nag un blwch.





## 2.2 Proffil

### 2.2.1 Dulliau gweithredu a phriodoleddau

Fel y dengys Ffigur 4 isod, mae cyfran sylweddol o ymatebwyr ein harolwg (bron 50%) yn ganolfannau sydd wedi hen ennill eu plwyf ac sydd wedi bod yn gweithredu ers 15 mlynedd a mwy. Mae'n destun rhywfaint o syndod fod tua 12% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod wedi sefydlu eu canolfan yn 2019, er gwaethaf Covid-19. Roedd tua thraean o'r ymatebwyr wedi bod yn gweithredu ers mwy na 6 mlynedd, ond llai na 15 mlynedd.

**Ffigur 4: Hirhoedledd canolfannau creadigol yng Nghymru**





Fel y dengys Ffigur 5 isod, mae'r rhan fwyaf o ganolfannau creadigol yng Nghymru yn fannau ffisegol, gydag amrywiaeth o gyfleusterau ac yn darparu gofod y gellir ei rannu ar gyfer arfer greadigol. Roedd tua 50% o'r holl ymatebwyr yn nodi mai dyna

oedd natur eu canolfan. Roedd tua un o bob chwech o'r canolfannau creadigol a ymatebodd i'n harolwg yn nodi mai gofod stiwdio oedd ganddynt – disgrifiad sydd â diffiniad eang yn ein hastudiaeth. Mae'r diffiniad yma'n cynnwys nid yn unig stiwdios recordio neu ffilmio, ond gofodau bach ar gyfer cydweithio hefyd.

Mae tua 10% o'r ymatebwyr yn nodi bod eu canolfan greadigol yn rhwydwaith, sef cyfuniad o unigolion a busnesau gwasgaredig. Nid yw rhwydweithiau o'r fath yn berchen canolfan benodol o reidrwydd, ond maent yn gallu trefnu digwyddiadau wyneb yn wyneb yn gyson. Mae oddeutu 10% arall o'n hymatebwyr yn ffitio i gategori 'amgen'. Mae hynny'n cynnwys canolfannau sy'n canolbwyntio ar Ymchwil a Datblygu, arbrofi, ymchwil, datblygu a rhannu arfer gorau neu gynhyrchion newydd yn y ganolfan a thu allan iddi.

Mae tua 20% o'r canolfannau creadigol yn nodi nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r categoriau rhagddiffiniedig hyn. Yn gyffredinol, mae'r canolfannau hyn yn nodi eu bod yn canolbwyntio ar hyfforddi, addysg, cyd-greu rhithwir a threfnu gwaith ar y cyd a gyflawnir gan stiwdios gwasgaredig.


**Ffigur 5: Mathau o ganolfannau creadigol yng Nghymru**




Fel y dengys Ffigurau 6 a 7, mae'r rhan fwyaf o ganolfannau creadigol yng Nghymru yn sefydliadau nid er elw mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae tua 37% o'r holl ymatebwyr yn nodi fod ganddynt nod elusenol, tra bod 25% arall naill ai'n sefydliadau nid er elw neu'n fentrau cymunedol neu'n gweithredu fel uned dan adain


prifysgol. Mae tua 16% o’r canolfannau’n nodi eu bod yn gweithredu er creu elw. Roedd gweddill y canolfannau yn cael eu hariannu drwy ddulliau eraill, fel cymhorthdal cyhoeddus neu drwy fod yn unedau annatod sy’n rhan o awdurdod lleol.

**Ffigur 6: Natur weithredol canolfannau creadigol yng Nghymru**




Er mai sefydliadu nid er elw yw’r rhan fwyaf o ganolfannau creadigol yng Nghymru, mae dros 70% yn nodi eu bod wedi derbyn incwm a enillir am eu gwasanaethau, tra mai dim ond tua hanner yr holl ymatebwyr sy’n derbyn cymorthdal cyhoeddus. Fel y dengys Ffigur 7, mae mwyafrif y canolfannau creadigol (tua 58%) yn manteisio ar ariannu ysbeidiol sy’n gysylltiedig â phrosiect. Dim ond 16% o’n hymatebwyr sy’n nodi eu bod yn derbyn buddsoddiad preifat, sy’n cyd-fynd â’r canfyddiadau a ddangosir yn Ffigur 4 (sef bod tua 16% o’r holl ganolfannau creadigol yn sefydliadau nid er elw). Mae tua 30% o’r canolfannau’n elwa ar ariannu o ffynonellau eraill, fel buddsoddiad tîm, cyllid torfol, cronfeydd ymddiriedolaeth a grantiau ayb


**Ffigur 7: Ffynonellau ariannu canolfannau creadigol yng Nghymru**





Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau creadigol yng Nghymru yn darparu ar gyfer unigolion neu sefydliadau sy'n gweithio ym meysydd cerddoriaeth, celfyddydau perfformio a chelfyddydau gweledol – gweler Ffigur 8. Nododd tua thri chwarter yr ymatebwyr eu bod yn ymwneud â'r sector yma. Mae cyrhaeddiad tua 55% o'r canolfannau creadigol yn cynnwys y sector crefftau, sy'n dipyn o syndod gan mai canran fach iawn o'r holl weithgarwch creadigol yng Nghymru sy'n gysylltiedig â chrefftau (0.4% o gyfanswm y nifer sy'n gyflogedig mewn diwydiannau creadigol yng Nghymru). Gwelir hyn yn Ffigur 9 isod.

Mae tua thraean o'r holl ymatebwyr yn gweithio gydag unigolion neu sefydliadau yn y sectorau dylunio, ffilm a theledu/radio. Mae tua 30% o'r holl ganolfannau yn gweithio ym maes hysbysebu a 30% arall ym maes cyhoeddi. Mae cysylltiadau a meysydd datblygu meddalwedd, gemau (meddalwedd hamdden ryngweithiol) a phensaernïaeth yn gymharol brin. Ar gyfartaledd, mae cyrhaeddiad sectoraidd pob canolfan greadigol yn cynnwys 5 sector.

**Ffigur 8: Cyrhaeddiad sectoraidd canolfannau creadigol yng Nghymru**




**Ffigur 9: Dosraniad cyflogaeth mewn meysydd creadigol yng Nghymru[9]**





[9] Ffynhonnell: Fodor, M. M., Komorowski, M. & Lewis, J. (2021). Adroddiad Clwstwr ar y Diwydiannau Creadigol Rhif 1.2 – 'Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Adroddiad: Maint a Chyfansoddiad y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru yn 2019'. Cyfres Cyhoeddiadau Clwstwr, Caerdydd, Clwstwr (t.8). Ar gael ar-lein yma: 'Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Yr Adroddiad: Maint a Chyfansoddiad y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru yn 2019'

## 2.2.2 Aelodaeth canolfannau creadigol yng Nghymru


Mae pob un o'r canolfannau creadigol a ymatebodd i'r arolwg yn cyflogi gweithwyr llawn amser i drefnu a chydlynnu eu gweithgareddau - fel y dengys Ffigur 10. Mae tua hanner yr ymatebwyr yn nodi eu bod yn cyflogi mwy na 8 ond llai na 17 o weithwyr FTE. Mae tua 40% o ganolfannau creadigol yng Nghymru'n cyflogi llai na 8 o bobl. Ar yr un pryd, mae mwy na 10% ohonynt yn cyflogi 17 neu ragor o bobl, gyda rhai hyd yn oed yn cyflogi mwy na 50 (ar sail data'r arolwg).

**Ffigur 10: Nifer o weithwyr mewn swyddi sy'n cyfateb i swyddi llawn amser a gyflogir gan ganolfannau creadigol yng Nghymru**





Ymddengys fod dosraniad aelodaeth canolfannau creadigol yn ddeufodd, h.y. gall dau begwn cwbl groes fod yn arferol ar yr un pryd. Gwelir hyn yn Ffigur 11 isod. Mae gan ganolfannau creadigol yng Nghymru naill ai nifer cymharol fach o aelodau (rhwng 10 a 50) neu nifer fawr (dros 1000). Mae aelodaeth tua thraean o'r canolfannau yn gymharol fach, tra bod aelodaeth chwarter ohonynt yn sylweddol. Nid yw canolfannau bach iawn (gyda llai na 10 o aelodau) yn anghyffredin. Mae tua 13% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn ganolfannau bach (*niche*) o'r fath. Yn gyffredinol, mae gan tua 27% o ganolfannau creadigol yng Nghymru fwy na 50 ond llai na 1001 o aelodau.

**Ffigur 11: Nifer yr aelodau sydd gan ganolfannau creadigol yng Nghymru**




Mae dros 75% o ganolfannau creadigol yng Nghymru yn nodi bod eu haelodau nodweddiadol rhwng 31 a 50 oed. Nid yw canolfannau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc iawn (18-30) neu bobl hŷn (61 neu'n henach) yn anghyffredin. Mae hyn yn wir am tua 25% o'r holl ganolfannau creadigol yng Nghymru, fel y dengys Ffigur 12.

**Ffigur 12: Oed cyfartalog aelodau canolfannau creadigol yng Nghymru**





Gofynnom i'r canolfannau creadigol sut y byddent yn disgrifio amrywiaeth eu haelodau o'i gymharu â demograffeg eu cymuned leol. Mae'r cwestiwn yn rhagdybio

fod gan yr ymatebwyr ddealltwriaeth dda o ddemograffeg eu cymuned leol o ran ethnigedd, cenedlaetholdeb, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd ayb[10].

Ymddengys fod canlyniadau ein harolwg yn awgrymu nad yw canolfannau creadigol yng Nghymru yn ystyried fod eu haelodaeth yn arbennig o amrywiol. Fel y dengys Ffigur 13, dim ond 25% o'r holl ymatebwyr sy'n ystyried fod eu haelodaeth naill ai'n amrywiol neu'n amrywiol iawn. Mae'n bosib fod canolfannau sy'n nodi nad yw eu haelodaeth yn amrywiol o gwbl neu nad ydynt yn arbennig o amrywiol yn goramcangyfrif yr amrywiaeth yn nemograffeg eu cymunedau lleol, neu mai bach iawn o ddiddordeb yn y bôn, os o gwbl, sydd gan unigolion amrywiol yng ngweithgareddau'r ganolfan. Fodd bynnag, mae tua 37% o'r ymatebwyr yn nodi nad yw natur eu haelodaeth yn amrywiol.

**Ffigur 13: Pa mor amrywiol yw aelodaeth canolfannau creadigol yng Nghymru?**





Mae canolfannau creadigol yn cyrraedd pobl y tu hwnt i gyfyngiadau eu grwpiau aelodaeth. Gofynnom i'r canolfannau nodi faint o bobl y maent yn eu cyrraedd yn

---

[10] Hyd yn oed os nad yw hyn yn wir, rydym yn disgwyl i wallau barn wneud iawn am ei gilydd yn asymptomatig ar draws y sampl. Mae hyn yn golygu y gall amcangyfrif rhai nodweddion penodol o boblogaeth leol yn rhy uchel neu'n rhy isel ddigwydd ar yr un pryd, sy'n dod â chyfanswm y gwallau a ddisgwylir yn agos i sero. Yn naturiol, mae'n bosib nad yw'r rhagdybiaeth yma'n wir am ein sampl ni.

flynyddol. Dangosir crynodeb o’r ymatebion i’r cwestiwn yma yn Ffigur 14 isod. Cynhwysir pob math o gydweithwyr allanol a mynychwyr gweithdai a digwyddiadau yn y rhifau hyn. Canfuom fod mwy na 75% o’r holl ganolfannau creadigol yng Nghymru yn cyrraedd mwy na 200 o bobl a bod bron i hanner ohonynt yn ymgysylltu â mwy na 5,000 o unigolion.

**Ffigur 14: Nifer yr unigolion y mae canolfannau creadigol yng Nghymru yn llwyddo i’w cyrraedd mewn blwyddyn arferol (gan gynnwys mynychwyr digwyddiadau a phartneriaid allanol).**





# 3 Gweithgarwch a chenhadaeth

## 3.1 Cyfleusterau a mwynderau

Mae canolfannau creadigol yng Nghymru yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleusterau a mwynderau. Mae pob canolfan yn cynnig tua 6-7 o’r gwasanaethau o’r set a restrir isod yn Ffigur 15. Mae tua dwy ran o dair o ganolfannau creadigol yng Nghymru’n cynnig cyfleoedd i gyflwyno digwyddiadau arddangos, gofod stiwdio a hyfforddiant/gweithdai. Mae tua 60% o’r holl ymatebwyr yn cynnig gwasanaeth llogi canolfan. Mae tua hanner yr holl ymatebwyr yn rhedeg caffis, cynnal digwyddiadau rhwydweithio a chynnig adnoddau ar-lein. Mae tua 45% o’r canolfannau’n gallu cynnig gofod ymarfer, ond dim ond 40% ohonynt sy’n cynnig aelodaeth agored nad yw’n dibynnu ar wahoddiad neu gysylltiad â phrosiect.

Mae tua thraean o’r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cynnig gofodau cydweithio, mynediad i sefydliadau academaidd neu fynediad i offer. Mae dros chwarter y canolfannau’n darparu cyfleoedd i werthu cynhyrchion newydd a chefnogaeth fusnes un i un (ymgynghori, mentora neu hyfforddi). Mae mwy na 10% o’r holl ymatebwyr yn cynnig grantiau deori creadigol i fentrau newydd, siop lyfrau a chyfleoedd hyrwyddo (gan amlaf drwy ddigwyddiadur ar-lein). Mae llai na 10% o’r canolfannau’n cynnig benthyciadau i weithwyr creadigol.

**Ffigur 15: Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan ganolfannau creadigol yng Nghymru**




## 3.2 Ymrwymiadau i Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig

Gofynnom i’r canolfannau creadigol yng Nghymru am eu hymrwymiadau i Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig a pha rai o’r nodau hynny sy’n fwyaf perthnasol i’r diwydiannau creadigol yn gyffredinol. Nodwyd 9 o nodau gennym ar sail atebion ein hymatebwyr.

Mae’r rhain yn cynnwys:

- Dim tlodi,
- Iechyd a llesiant da,
- Addysg o ansawdd,
- Cydraddoldeb rhywiol,
- Gwaith boddhaol a thwf economaidd,
- Diwydiant, arloesi a seilwaith,
- Llai o anghydraddoldeb,
- Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy,
- Defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol.

Canfuom fod mwy na 83% o'r holl ganolfannau creadigol yng Nghymru yn rhoi mesurau ymarferol ar waith ar gyfer o leiaf un o'r nodau hyn, a bod pob canolfan, ar gyfartaledd, yn cymryd camau pendant i roi mesurau ymarferol ar waith ar gyfer 5-6 ohonynt. Hefyd, mae'r ymatebwyr wedi nodi natur y mesurau hyn. Rydym yn nodi canfyddiadau ansoddol a meintiol ein harolwg isod.

### Dim tlodi

Nododd 50% o'r canolfannau creadigol yng Nghymru eu bod yn cymryd camau ymarferol i gyfrannu i agenda 'Dim Tlodi' y Cenhedloedd Unedig. Mae hynny'n cynnwys rhoi aelodaeth am ddim i weithwyr creadigol mewn angen, talu cyflogau byw i'w gweithwyr, defnyddio cynhyrchwyr a chyflenwyr lleol. Mae canolfannau eraill yn nodi eu bod wedi trefnu digwyddiadau heb dâl mynediad sy'n agored i'r cyhoedd ac nid dim ond i aelodau.

### Iechyd a llesiant da

Mae tua 75% o'r canolfannau'n nodi fod ganddynt ryw fath o ymrwymiad i'r nod datblygu cynaliadwy yma. Mae llawer o'r canolfannau'n nodi eu bod yn gweini bwyd iach, darparu rhandiroedd cymunedol, trefnu gweithdai iechyd meddwl a theithiau cerdded neu ddigwyddiadau chwaraeon.

### Addysg a hyfforddiant o ansawdd

Nododd tua 60% o'r ymatebwyr eu bod yn trefnu gweithgareddau neu'n darparu cymorth ac adnoddau i gyfrannu i fentrau addysg a hyfforddiant lleol. Mae rhai canolfannau creadigol yn gweithio ar y cyd ag ysgolion lleol i helpu gyda'r gwaith o gynllunio eu cwricwlwm a darparu adnoddau ar-lein. Mae canolfannau eraill yn trefnu gweithdai hyfforddi i helpu gweithwyr creadigol i farchnata a gwerthu eu gwaith. Nododd sawl canolfan eu bod yn trefnu prentisiaethau ac internaethau.

### Cydraddoldeb rhywiol

Nododd tua hanner y canolfannau creadigol eu bod yn cymryd camau ymarferol i sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Mae nifer o'r canolfannau'n nodi eu bod yn sicrhau cydraddoldeb ym maes cyflogaeth a dileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae rhai canolfannau'n darparu cyfleoedd gwirioneddol gyfartal i'w holl aelodau a gweithwyr cyflogedig, tra bod eraill yn ymfalchio yn y niferoedd mawr o fenywod sy'n defnyddio eu stiwdios. Mae llawer o'r canolfannau'n amcanu i sicrhau cydbwysedd o ran rhywedd siaradwyr gwadd a chydraddoldeb rhwng menywod a dynion mewn rolau arwain hefyd.

### Gwaith boddhaol a thwf economaidd

Mae bron i 75% o'r canolfannau creadigol wedi ymrwymo i'r nod yma. Mae llawer ohonynt yn crybwyll talu cyflogau byw neu'n nodi eu bod yn aelodau o'r Sefydliad Cyflog Byw ac yn talu cyflogau'n unol â chanllawiau'r corff hwnnw. Mae llawer o'r canolfannau'n credu bod eu cyfraddau cyflog yn cyd-fynd â safonau'r diwydiant. Mae rhai canolfannau'n darparu lleoliadau gwaith i'w gwirfoddolwyr. Mae nifer o'r canolfannau'n ceisio gwella llesiant eu gweithwyr drwy dorri amseroedd cymudo maith a darparu cyfleoedd i uwchsgilio.

### Diwydiant, arloesi a seilwaith

Mae tua 40% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod wedi cymryd camau tuag at y nod yma. Mae rhai o'r canolfannau creadigol hyn wedi buddsoddi mewn seilwaith o'r radd flaenaf, fel cysylltiadau rhyngrwyd eithriadol o gyflym. Mae eraill yn cymryd camau amserol i sicrhau eu bod yn addasu i dechnolegau newydd. Mae llawer iawn o ganolfannau'n nodi eu bod yn meithrin Ymchwil a Datblygu. Mae eraill wedi ymrwymo i ddatblygu dulliau a syniadau arloesol.

### Lleihau anghydraddoldeb

Mae traean o'r ymatebwyr yn cymryd camau ymarferol tua'r nod yma. Mae llawer o'r canolfannau'n tynnu sylw at amrywiaeth eu byrddau rheoli a chyfarwyddwyr yn ogystal ag ehangu ystod ac amrywiaeth eu cynulleidfa. Mae canolfannau eraill yn nodi eu bod yn cymryd camau tuag at ehangu amrywiaeth eu staff. Mae rhai canolfannau'n defnyddio arian grant i hybu cynhwysiad cymunedau ymylol.

### Dinasoedd a chymunedau cynhwysol

Mae tua 30% o ganolfannau creadigol yng Nghymru'n cymryd camau tuag at y nod o ddatblygu dinasoedd a chymunedau cynaliadwy. Mae nifer o'r canolfannau'n monitro eu hôl troed carbon. Mae eraill wedi llunio datganiadau gwyrdd ar gyfer eu gweithrediadau. Mae rhai canolfannau'n trefnu digwyddiadau cynaliadwy a gweithdai cynaliadwyedd.

### Defnyddio a chynhyrchu cyfrifol

Mae tua 20% o ganolfannau creadigol Cymru wedi ymroi i'r nod hwn. Mae rhai yn cyfrannu drwy annog egin fusnesau bach a chynaliadwy yn eu cymunedau lleol. Mae gan eraill bolisiau cynhyrchu eco-gyfeillgar ar waith. Mae rhai canolfannau'n hybu

ailgylchu, ail-ddefnyddio a lleihau gwastraff. Mae nifer fawr o'r canolfannau'n nodi ymrwymiad i fasnach deg a defnyddio gwasanaethau a chynhyrchion cyflenwyr lleol.


## 3.2 Effaith

### 3.2.1 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Gofynnom i'r canolfannau creadigol am y modd y maent yn cyfleu eu nodau o ran sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysiant. Rhoddwyd cyfle i bob canolfan nodi mwy nag un cyfrwng neu ddull wrth ateb y cwestiwn yma. Fel y dengys Ffigur 16, mae dros 70% ohonynt yn cynnwys mesurau penodol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu datganiadau cenhadaeth. Mae tua thraean ohonynt yn cynnwys nodau'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu datganiadau am ddisgwyliadau o ran ymddygiad. Nododd llai na 10% o'r canolfannau creadigol nad oedd ganddynt nodau penodol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

I raddau, mae'r canlyniadau yma'n croes ddweud yr hyn a gyflwynwyd gennym yn is-adran 3.1.7 uchod. Dim ond traean o'r ymatebwyr sy'n nodi eu bod wedi cymryd camau penodol o ran lleihau anghydraddoldeb, ond fel yr awgryma Ffigur 16 mae bron bob un o'r canolfannau creadigol hefyd yn nodi fod ganddynt ryw ffurf o nod neu ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysiant. Gall hyn fod yn adlewyrchiad o ddiffyg cysylltiad rhwng uchelgais a chamau a gymerwyd. Mae'n bosib y gallai prinder adnoddau fod yn rhwystr i wireddu rhai uchelgeisiau.

**Ffigur 16: Ymrwymiad canolfannau creadigol yng Nghymru i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a'r camau y maent yn eu cymryd i sicrhau hynny**





## 3.2.2 Amcanion

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi eu barn am bwysigrwydd amrywiaeth o feysydd gwaith amrywiol a allai fod yn berthnasol. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys:

- Galluogi arloesi a datblygiadau technolegol,
- Addysg a hyfforddiant,
- Cryfhau cydweithio,
- Cynhwysiant ac amrywiaeth,
- Hyrwyddo'r diwydiannau creadigol,
- Creu cwmnïau newydd a hybu twf yn y diwydiant.


Fel y dengys Ffigur 17, mae bron bob un o'r canolfannau creadigol yn ystyried bod galluogi arloesi a datblygiadau technolegol yn bwysig. Mae tua 50% ohonynt yn nodi fod gwaith yn y maes hwn naill ai'n 'eithriadol o bwysig' neu'n 'bwysig iawn' iddynt.

**Ffigur 17: Pwysigrwydd galluogi arloesi a datblygiadau technolegol i ganolfannau creadigol yng Nghymru**




Mae pwysigrwydd mawr i addysg a hyfforddiant ymysg canolfannau creadigol yng Nghymru. Mae bron i 80% ohonynt yn nodi fod gwaith yn y maes hwn yn ‘eithriadol o bwysig’ neu’n ‘bwysig iawn’. Roedd llai na 5% yn nodi nad oedd yn bwysig o gwbl iddynt. Dangosir y canlyniadau hyn yn Ffigur 18 isod.


**Ffigur 18: Pwysigrwydd addysg a hyfforddiant i ganolfannau creadigol yng Nghymru**




Mae consensws cryf ymysg y set yma o ganolfannau creadigol yng Nghymru fod cryfhau cydweithio yn bwysig. Mae pob un o’r canolfannau’n datgan fod y nod yma’n

gymharol bwysig iddynt, ac mae 95% ohonynt yn nodi ei fod naill ai'n 'bwysig iawn' neu'n 'eithriadol o bwysig'. Dangosir hyn yn Ffigur 19 isod.


**Ffigur 19: Pwysigrwydd cryfhau cydweithio i ganolfannau creadigol yng Nghymru**




Mae'r canlyniadau am bwysigrwydd gwaith ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bron yn union yr un peth â'r canlyniadau uchod am gryfhau cydweithio. Ond, mae hyd yn oed mwy o ganolfannau (dros 70% ohonynt) yn nodi fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn faes 'eithriadol o bwysig' iddynt. Mae'r canfyddiad yma'n cyd-fynd â'r hyn a welir yn is-adran 3.2.1 am ymrwymiad canolfannau creadigol yng Nghymru i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu datganiadau cenhadaeth.


Mae pob un o'r canolfannau creadigol yn nodi fod hyrwyddo'r diwydiannau creadigol o leiaf yn gymharol bwysig iddynt. Mae 80% o'r holl ymatebwyr yn nodi ei fod yn ffactor 'eithriadol o bwysig' neu'n 'bwysig iawn', fel y dengys Ffigur 20 isod.

**Ffigur 20: Pwysigrwydd hyrwyddo'r diwydiannau creadigol i ganolfannau creadigol yng Nghymru**




Creu cwmnïau newydd a hybu twf y diwydiant yw'r maes gwaith lleiaf pwysig i ganolfannau creadigol yng Nghymru. Mae llai na 30% o'r holl ymatebwyr yn nodi fod yr ystyriaethau hyn yn 'bwysig iawn' neu'n 'eithriadol o bwysig' iddynt. Er bod llai na 10% o'r canolfannau creadigol yn nodi nad yw'r maes yma'n bwysig o gwbl iddynt, mae'n amlwg fod brwdfrydedd am y maes gwaith yma'n dipyn llai na'r holl feysydd eraill uchod. Dangosir hyn yn Ffigur 21 isod.

**Ffigur 21:Pwysigrwydd creu cwmnïau newydd a hybu twf y diwydiant i ganolfannau creadigol yng Nghymru**



# 4 Rhagolygon y dyfodol


## 4.1 Heriau

Gofynnom i'r canolfannau creadigol rannu eu teimladau am amryw o heriau a allai fod yn berthnasol iddynt. Mae'r heriau hyn yn cynnwys:

- Ansicrwydd ynglyn ag ariannu,
- Maint eu baich gwaith,
- Profi gwerth neu wynebu diffyg dealltwriaeth o'r tu allan o werth,
- Cyrraedd neu ddenu busnesau creadigol newydd,
- Rheolaeth dydd i ddydd, a
- Rhyngwladoli.


Mae dros hanner y canolfannau creadigol yn nodi fod ansicrwydd ynglyn ag ariannu yn broblem 'heriol iawn' neu'n 'eithriadol o heriol'. Dim ond tua 10% o'r holl ymatebwyr a nododd nad oedd hyn yn her o gwbl. Dangosir hyn yn Ffigur 22 isod.

**Ffigur 22: Barn canolfannau creadigol yng Nghymru ynglyn ag ansicrwydd posib am ariannu**




Nododd y canolfannau creadigol a ymatebodd fod maint y baich gwaith y maent yn ei wynebu'n destun hyd yn oed mwy o bryder iddynt. Nododd bron i 60% ohonynt fod hyn yn fater 'pwysig iawn' neu'n 'eithriadol o bwysig' iddynt. Mae bron pob un o'r canolfannau'n nodi fod hyn yn fater sydd, fan leiaf, yn gymharol heriol. Dangosir hyn yn Ffigur 23 isod.

**Ffigur 23: Barn canolfannau creadigol yng Nghymru am faint y baich gwaith y maent yn ei wynebu**





Mae tua thraean o'r holl ganolfannau'n nodi fod profi eu gwerth i eraill naill ai'n 'heriol iawn' neu'n 'eithriadol o heriol'. Mae hynny'n ganran is nag a welwyd ar gyfer yr heriau eraill hyd yma. Ar yr un pryd, mae llai na 10% o'r canolfannau'n nodi nad yw hyn yn her o gwbl iddynt, sy'n golygu fod y rhan fwyaf o ganolfannau creadigol yn wynebu rhywfaint o her yn y maes yma. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 24 isod.

**Ffigur 24: Barn canolfannau creadigol yng Nghymru am yr her o brofi eu gwerth neu wynebu diffyg dealltwriaeth am eu pwrpas a'u gwerth**




Ymddengys fod cyrraedd a denu busnesau newydd yn un o'r heriau lleiaf i ganolfannau creadigol yng Nghymru. Ni wnaeth unrhyw un o'r ymatebwyr nodi fod hyn yn 'eithriadol o heriol' iddynt. Nododd tua 15% o'r ymatebwyr fod cyrraedd busnesau newydd yn 'heriol iawn'. Eto, nid yw'n her gwbl ddibwys gan mai dim ond ychydig mwy na 10% o'r canolfannau creadigol a nododd nad oedd denu busnesau newydd yn her o gwbl. Dangosir canlyniadau'r ymholiad yma yn Ffigur 25 isod.


**Ffigur 25: Barn canolfannau creadigol yng Nghymru am yr her o ddenu a chyrraedd busnesau newydd**




Ymddengys fod rheolaeth dydd i ddydd yn her hyd yn oed yn llai pwysig i ganolfannau creadigol yng Nghymru. Dim ond ychydig dros 10% ohonynt sy'n


meddwl ei fod yn ‘heriol iawn’, tra bod 20% o’r holl ymatebwyr yn nodi nad ydynt yn ei gael yn heriol o gwbl. Dangosir y canlyniadau hyn yn ffigur 26 isod.

**Ffigur 26: Barn canolfannau creadigol yng Nghymru am heriau rheolaeth dydd i ddydd**




Mae’r canlyniadau o ran barn y canolfannau am heriau rhyngwladoli yn debyg, er nad yw tua 15% o’r holl ymatebwyr yn teimlo fod hyn yn berthnasol o gwbl iddynt. Mae’n bosib fod natur leol eu gweithgareddau a’u ffocws yn esbonio hynny. Dim ond ychydig mwy na 10% o’r holl ymatebwyr a nododd fod hon yn broblem ‘heriol iawn’ neu’n ‘eithriadol o heriol’. Nododd dros 20% o’r canolfannau creadigol nad ydynt yn meddwl fod rhyngwladoli’n broblem heriol. Dangosir canrannau’r gwahanol atebion yn Ffigur 27 isod.

**Ffigur 27: Barn canolfannau creadigol yng Nghymru am ryngwladoli**





## 4.2 Hyder am weithgarwch yn y dyfodol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor hyderus yr oeddent yn teimlo am yr heriau amrywiol y byddent yn eu hwynebu yn y dyfodol. Nodwyd yr heriau canlynol ganddynt:

- Cynyddu neu gynnal nifer eu haelodau,
- Cynaliadwyedd ariannol,
- Datblygu cysylltiadau a rhwydweithiau,
- Dylanwadau gwleidyddol lleol neu genedlaethol,
- Gweithio gyda'r gymuned leol,
- Cynyddu neu gynnal gwasanaethau, rhaglenni a chynhyrchion,
- Mabwysiadu dull(iau) arloesol.


Mae tua 80% o ganolfannau creadigol yng Nghymru'n teimlo naill ai'n hyderus neu'n hyderus iawn am gynyddu neu gynnal nifer eu haelodau. Mae hyn yn awgrymu fod potensial cadarn o ran twf yng nghyrhaeddiad y canolfannau. Dim ond ychydig mwy na 10% o'r holl ymatebwyr sy'n teimlo'n fwy ansicr neu hyderus am yr her yma. Gwelir canlyniadau'r cwestiwn yma yn Ffigur 28 isod.

**Ffigur 28: Pa mor hyderus yw canolfannau creadigol yng Nghymru o ran yr her o gynyddu neu gynnal nifer eu haelodau?**





Fodd bynnag, mae canolfannau creadigol yn teimlo'n llai hyderus am eu cynaliadwyedd ariannol, fel y dengys Ffigur 29. Mae tua hanner yr ymatebwyr yn teimlo o leiaf rhywfaint yn hyderus am yr her yma, ond mae tua chwarter ohonynt yn teimlo'n fwy ansicr na hyderus ynglyn â materion ariannol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau a ddangosir yn Ffigur 22, sy'n dangos fod tua hanner yr holl ganolfannau creadigol yn nodi fod ansicrwydd am ariannu yn heriol.

**Ffigur 29: Pa mor hyderus yw canolfannau creadigol yng Nghymru o ran yr her o sicrhau cynaliadwyedd ariannol?**





Mae bron pob un o'r ymatebwyr naill ai'n hyderus neu'n hyderus iawn am ddatblygu cysylltiadau neu rwydweithiau. Ni nododd unrhyw un o'r canolfannau eu bod yn ansicr am hyn, fel y dengys Ffigur 30 isod.

**Ffigur 30: Pa mor hyderus yw canolfannau creadigol yng Nghymru o ran yr her o ddatblygu cysylltiadau a rhwydweithiau?**





Mae'r canolfannau creadigol yn teimlo ychydig yn llai hyderus am eu dylanwad gwleidyddol lleol neu genedlaethol. Mae 50% o'r canolfannau yn teimlo'n ansicr am yr her yma, neu maent wedi nodi nad ydynt yn teimlo'n ansicr nac yn hyderus am y peth. Dangosir y canfyddiadau yma yn Ffigur 31 isod.

**Ffigur 31: Pa mor hyderus yw canolfannau creadigol yng Nghymru o ran eu dylanwad gwleidyddol lleol neu genedlaethol?**





Ni ymddengys fod gweithio gyda'r gymuned leol yn destun pryder i ganolfannau creadigol yng Nghymru. Mae bron pob un ohonynt naill ai'n teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn am hyn. Ni nododd unrhyw ganolfan ei bod yn teimlo'n ansicr am yr her yma. Gwelir y canlyniadau yn Ffigur 32 isod.

**Ffigur 32: Pa mor hyderus yw canolfannau creadigol yng Nghymru o ran yr her o weithio gyda'u cymunedau lleol?**





Mae'n ymddangos fod canolfannau creadigol yng Nghymru'n teimlo rhywfaint yn llai hyderus am gynyddu neu gynnal nifer eu cynhyrchion, gwasanaethau a rhaglenni newydd. Â dweud hynny, mae ansicrwydd am yr her yma'n gymharol anghyffredin – dim ond mewn 5% o atebion y caiff ei nodi. Eto i gyd, dim ond chwarter o'r holl ymatebwyr sy'n teimlo'n hyderus iawn am yr her yma. Gwelir y canlyniadau yn Ffigur 33.

**Ffigur 33: Pa mor hyderus yw canolfannau creadigol yng Nghymru o ran yr her o gynyddu neu gynnal gwasanaethau, rhaglenni neu gynhyrchion?**




Mae tua thri chwarter yr ymatebwyr yn teimlo'n hyderus am eu gallu i fabwysiadu dulliau arloesol ar gyfer eu gwaith. Nododd llai na 5% o'r canolfannau eu bod yn teimlo'n fwy ansicr na hyderus am hyn, fel y dengys Ffigur 34.


**Ffigur 34: Pa mor hyderus yw canolfannau creadigol yng Nghymru o ran yr her o fabwysiadu dulliau arloesol?**




## 4.3 Gallu i wrthsefyll siociau

Gofynnom i'r canolfannau creadigol am effaith Brexit a Covid-19 arnynt. Dywedodd tua 20% o'r holl ymatebwyr nad oeddynt yn teimlo fod Brexit wedi effeithio ar eu gweithgarwch, tra nododd 80% eu bod wedi teimlo rhywfaint o effeithiau negyddol yn ei sgil. Roedd bron i 30% o'r canolfannau'n teimlo eu bod wedi dioddef effeithiau negyddol iawn yn sgil Brexit. Gwelir y canlyniadau hyn yn Ffigur 35 isod.

**Ffigur 35: Effaith Brexit ar ganolfannau creadigol yng Nghymru**





Mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd ag ymchwil blaenorol ar y pwnc. Canfu adroddiad yn 2020 fod tua 80% o fusnesau creadigol yng Nghymru yn bryderus neu'n bryderus

iawn am sgil effeithiau Brexit[11]. Mae'r rhif yma'n cyd-fynd â'r canlyniadau a welir yn Ffigur 35.

Mae hyd yn oed y pandemig byd-eang wedi bod yn llai dinistriol i ganolfannau creadigol yng Nghymru na Brexit; nododd tua 15% o'r ymatebwyr fod Covid-19, os rhywbeth, wedi cael effaith fuddiol ar eu gweithgarwch[12]. Er bod ymateb yn y modd yma hefyd yn opsiwn yn y cwestiwn am Brexit, ni nododd unrhyw ganolfannau creadigol eu bod wedi gweld unrhyw fanteision yn sgil Brexit. Fel y dengys Ffigur 36, mae canran y canolfannau creadigol a welodd sgil-effeithiau negyddol oherwydd Covid-19 tua'r un peth â'r uchod, sef tua 80%.

**Ffigur 36: Effaith Covid-19 ar ganolfannau creadigol yng Nghymru**





[11]Komorowski, M. and Lewis, J. (2020). Brîff Polisi Clwstwr Rhif 1: 'Effaith (bosibl) Brexit ar Fusnesau Creadigol: Goblygiadau ar gyfer polisïau a busnesau yng Nghymru', Cyfres Cyhoeddiadau Clwstwr, Caerdydd, Clwstwr. Ar gael yma: ['Effaith (bosibl) Brexit ar Fusnesau Creadigol']

[12] Donnelly, S. and Komorowski M. (2022). 'Ar Lwybr Adferiad? Adroddiad Llawryddion Celfyddydol Cymru 2022' (Ionawr 2022). Ar gael ar-lein yma: [Adroddiad 'Ar Lwybr Adferiad?']

# 5 Enghreifftiau o ganolfannau creadigol yng Nghymru

## 5.1 Caerdydd Creadigol



Strwythur: rhan o’r brifysgol
Cwmpas daearyddol: ledled y ddinas
Oed y ganolfan: 6+ o flynyddoedd

Nifer aelodau: 1000+
Gweithwyr llawn-amser: 1
Lleoliad: Caerdydd
Gwefan: creativecardiff.org.uk

Cafodd Caerdydd Creadigol ei lansio ym mis Hydref 2015 i greu rhwydwaith i gysylltu sefydliadau a gweithwyr llawrydd creadigol ar draws holl sbectrwm economi greadigol y ddinas - o ddawnswyr i benseiri i godyddion. Drwy annog pobl i weithio gyda’i gilydd credwn y gallwn helpu i wneud Caerdydd yn lle mor greadigol ag y bo modd. Un o amcanion allweddol Caerdydd Creadigol oedd hybu mentrau cydweithio creadigol a fyddai’n sbarduno arloesi, creadigrwydd a thwf sectoraidd, a chynnal a churadu ymchwil i gefnogi a llunio’r twf hwnnw. Mae’r rhwydwaith yn cysylltu pobl sy’n gweithio mewn unrhyw fath o sefydliad, busnes neu swydd yn y maes creadigol yn ardal Caerdydd. Bellach, mae gan y rhwydwaith filoedd o aelodau. Mae Caerdydd

Creadigol wedi trefnu a chyflwyno dros 70 o ddigwyddiadau yn ogystal â chynnal nifer o brosiectau ymchwil ac ymgysylltu.

## 5.2 TAPE – ffilm a cherddoriaeth gymunedol




Strwythur: elusennol
Cwmpas daearyddol: cenedlaethol
Oed y ganolfan: 10+ o flynyddoedd
Nifer aelodau: 250-1000

Gweithwyr llawn-amser: 20
Lleoliad: Hen Golwyn
Gwefan: tapemusicandfilm.co.uk

Mae TAPE yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd creadigol i grwpiau ac unigolion mewn mannau cynhwysol, diogel a chefnogol. Mae TAPE yn elusen sy’n agored i bawb. Mae tîm a chyfleustrau TAPE yn hybu cyfleoedd a phrofiadau ymarferol mewn meysydd fel gwneud ffilmiau, cynhyrchu sain, cerddoriaeth, ffotograffiaeth, Realiti Rhithwir (VR), dylunio, ysgrifennu creadigol, podledu a mwy. Mae amserlen TAPE yn cynnwys gweithdai wythnosol fel Clybiau Ieuenctid *Backstage*, Stafell Sgwenwyr,

grŵp cerddoriaeth gymunedol *Ghostbuskers* a Chlwb Animeiddio yn ogystal â digwyddiadau, sgrinio ffilmiau, prosiectau pwrpasol, hyfforddiant a mwy. Cynhelir y gweithgareddau yng Nghanolfan Celfyddydau Cymunedol TAPE a thrwy brosiectau allgyrch ar draws Gogledd Cymru. Mae TAPE yn cefnogi dysgu achrededig ac mae'n Ganolfan sydd wedi'i chymeradwyo gan Agored.

## 5.3 elysium



Strwythur: nid er elw
Cwmpas daearyddol: ledled y ddinas
Oed y ganolfan: 15+ o flynyddoedd
Nifer aelodau: 100-250
Gweithwyr llawn-amser: 12
Lleoliad: Abertawe
Gwefan: elysiumgallery.com

Mae oriel elysium yn fenter gymdeithasol nid er elw sy’n darparu stiwdios a chyfleusterau ar gyfer celfyddydau cyfoes sy’n hybu addysg a meithrin ymgysylltiad rhwng artistiaid a chymunedau i ysgogi newid cymdeithasol cadarnhaol. Cafodd elysium ei sefydlu yn 2007 i gefnogi a hybu’r celfyddydau yn Abertawe a thu hwnt gyda phwyslais ar gydweithio a chymuned. Elysium yw’r darparwr stiwdios mwyaf yng Nghymru. Mae hefyd yn ddeorydd ar gyfer grŵp llewyrchus o artistiaid yn Abertawe gan ddarparu mannau gweithio, cyfleoedd i ymgysylltu â’r gymuned a datblygu proffesiynol. Mae elysium yn sefydliad sy’n cael ei arwain gan artistiaid; mae’n hybu balchder a chyfranogiad yn y celfyddydau gweledol a pherfformio yn lleol drwy hybu addysg, cyfranogiad, arbrofi, rhyddid a gwerthfawrogiad o bob arfer greadigol. Nid fu cartref mewn un adeilad penodol gan elysium erioed; dros y blynyddoedd mae wedi defnyddio 9 o adeiladau gwahanol yn ogystal â chynnal prosiectau mewn lleoliadau amrywiol eraill.

## 5.4 ProMo-Cymru



Strwythur: nid er elw
Cwmpas daearyddol: rhanbarthol
Oed y ganolfan: 3+ o flynyddoedd
Ymgysylltiad: 5000+ o bobl

Gweithwyr llawn-amser: 12

Lleoliad: Caerdydd

Gwefan: promo.cymru

Mae ProMo Cymru yn gweithio i sicrhau fod pobl ifanc a chymunedau yn wybodus, yn cyfrannu, wedi’u cysylltu ac yn cael eu clywed. Mae ProMo-Cymru yn cefnogi’r trydydd sector a’r sector cyhoeddus i greu gwell gwasanaethau ac yn rhoi llais i bobl ifanc a chymunedau drwy greadigrwydd a chyfryngau digidol. Mae ProMo-Cymru yn arloesol, yn wybodus yn dechnolegol ac yn sicrhau mai barn bobl ifanc a chymunedau sydd wrth galon ein ffordd o feddwl. Rydym yn cydweithio i greu cysylltiadau rhwng pobl a gwasanaethau gan ddefnyddio creadigrwydd a thechnoleg ddigidol a chefnogi’r trydydd sector a’r sector cyhoeddus i ddychmygu, profi a chreu gwasanaethau gwell. Mae ProMo-Cymru yn gweithio gyda chymunedau trwy gyfathrebiadau, eiriolaeth, ymgysylltu diwylliannol a deunydd digidol a chyfryngol. Mae dros 20 mlynedd o brofiad o gyflawni prosiectau gwybodaeth ieuenctid digidol yn llywio ein gwaith. Rydym yn rhannu’r wybodaeth yma drwy hyfforddiant ac ymgynghori, gan greu partneriaethau hir dymor er budd pobl a sefydliadau. Mae ProMo-Cymru yn elusen gofrestredig ac yn fenter gymdeithasol; mae ein helw yn cael ei fuddsoddi yn ôl yn ein prosiectau cymunedol.

## 5.5 NoFit State



Strwythur: elusennol

Cwmpas daearyddol: rhanbarthol

Oed y ganolfan: 6+ o flynyddoedd

Nifer aelodau: 100-250

Gweithwyr llawn-amser: 6

Lleoliad: Caerdydd

Gwefan: nofitstate.org

Yn ystod y 30 mlynedd diwethaf mae NoFit State wedi canolbwyntio ar waith syrcas gyfoes gan gyfuno cerddoriaeth fyw, dawns, dylunio llwyfan, testun a ffilm gyda sgiliau syrcas traddodiadol. Mae ei gwreiddiau yn y gymuned deithiol sy'n cyrraedd, codi pabell, denu cynulleidfa, ac wedyn diflannu gan adael dim ond glaswellt gwastad ac atgofion yn brawf iddynt fod yno o gwbl. Erbyn heddiw NoFit State yw'r cwmni syrcas gyfoes ar raddfa fawr fwyaf blaenllaw yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cwmni'n creu cynyrchiadau teithiol proffesiynol ac amrywiaeth eang o brosiectau cymunedol, hyfforddiant, ac addysg i bobl o bob oed. Dros y deng mlynedd diwethaf mae cynyrchiadau teithiol NoFit State wedi ymweld â 19 o wledydd gwahanol, perfformio i dros 460,000 o bobl, ennill canmoliaeth eang yn ogystal ag ennill nifer o wobrau rhyngwladol o bwys ym myd y celfyddydau.

# 6 Casgliadau

Fel yr ydym wedi dangos, does dim dwywaith nad yw canolfannau creadigol yng Nghymru yn cael effaith wirioneddol ar y diwydiant a'r ecosystem greadigol ehangach. Mae canolfan greadigol nodweddiadol yng Nghymru yn ymgysylltu â thros 5,000 o bobl greadigol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau (cyrsiau, gweithdai, dangos gwaith ayb). Yn bennaf, mae canolfannau creadigol yng Nghymru'n cefnogi gweithgareddau creadigol sydd â rhyw fath o elfen artistig. Mae'r rhain yn cynnwys celfyddydau perfformio, ffilm, teledu, crefftau a cherddoriaeth.

Mae canolfannau creadigol yn darparu amrywiaeth eang o gyfleusterau a seilwaith i weithwyr creadigol – fel stiwdios a mannau ymarfer, hyfforddiant, gweithdai, mentora, ariannu a chyfleoedd hyrwyddo. Yn ogystal, mae dros 90% o'r canolfannau creadigol yn ymdrechu i sicrhau effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach drwy fabwysiadu o leiaf un o nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Er gwaetha'r effaith economaidd a chymdeithasol yma, mae'r rhan fwyaf o ganolfannau creadigol yng Nghymru'n pryderu am sut y gallant gadw i fynd yn ariannol. Mae ansicrwydd ynglyn ag ariannu yn her sylweddol iddynt. Mae mwyafrif y canolfannau'n dibynnu ar incwm a enillir ac ariannu a ddaw trwy brosiectau; yn aml gall y rhain fod yn ffrydiau incwm tymhorol yn unig neu'n annibynadwy. Ar ben hynny, gall ffynhonellau ariannu fod ar drugaredd dirwasgiadau ac argyfyngau ariannol. O ganlyniad, mae sicrhau a darparu ffynonellau ariannol dibynadwy yn her sylweddol iawn i'r canolfannau creadigol yn ogystal ag i lunwyr polisi yng Nghymru.

Oherwydd sgil-effeithiau Brexit, dyma'r "union amser" i gymryd camau gweithredol yn y maes hwn. Ni wnaeth unrhyw un o'r canolfannau creadigol yng Nghymru nodi eu bod wedi cael unrhyw fudd o benderfyniad y Deyrnas Unedig i adael y Farchnad Gyffredin. Ond yn achos Covid-19, er gwaetha'r holl ddifrod a achoswyd ganddo, nododd mwy na 20% o'r canolfannau eu bod wedi gweld rhywfaint o fudd yn ei sgil gan y bu'n rhaid iddynt ddigido ac ail-drefnu llawer o'u gweithgareddau.

Ag ystyried hyn, mae'n debygol y bydd ffeindio partneriaid, buddsoddwyr a ffynhonellau incwm rhyngwladol dipyn yn fwy anodd yn y dyfodol. Mae'n ymddangos fod yr heriau yma'n cyfyngu ar uchelgais llawer o ganolfannau creadigol yng Nghymru. Er eu bod yn fwy na pharod i ymestyn eu gweithgarwch yn rhyngwladol, gyda thros 80% o'r canolfannau yn cymryd camau i gydweithio a meithrin partneriaethau rhyngwladol, dim ond 10% o ganolfannau creadigol yng Nghymru sy'n ystyried fod ganddynt unrhyw gwmpas rhyngwladol.

O ganlyniad, gall unrhyw arf polisi sy'n ceisio gwneud yn iawn am effaith niweidiol Brexit fod yn fanteisiol iawn i ganolfannau creadigol yng Nghymru. Mae mesurau polisi o'r fath yn arbennig o bwysig os yw Cymru am dyfu'n ganolfan fyd-eang a chystadleuol mewn is-sectorau creadigol deinamig fel ffilm a theledu o'r ansawdd uchaf. Yn sgil eu cyrhaeddiad eang a'u harbenigeddau gall canolfannau creadigol chwarae rhan flaenllaw yn y trawsnewidiad yma. Ond, gall ansicrwydd ariannol a chyfyngiadau ar gyfleoedd rhyngwladol fod yn rhwystrau difrifol i ganolfannau creadigol yng Nghymru. O ganlyniad, ymddengys y dylid blaenoriaethu llunio polisi wedi'i dargedu sy'n dileu rhwystrau o'r fath.

# **Atodiad:** Rhestr o ganolfannau creadigol yng Nghymru

| Enw'r ganolfan greadigol | Lleoliad |
|---|---|
| Indycube, Abergele | Abergele |
| Indycube, Abertileri | Abertileri |
| Y Metropole | Abertileri |
| Indycube Aberhonddu | Aberhonddu |
| Theatr Brycheiniog | Aberhonddu |
| AXIS 13 | Abertawe |
| Oriel Elysium | Abertawe |
| Indycube, Abertawe | Abertawe |
| LOCWS Rhyngwladol | Abertawe |
| Labordy Device Lab | Abertawe |
| Prifysgol Abertawe | Abertawe |
| Canolfan Gelfyddydau Taliesin | Abertawe |
| Canolfan Dechnoleg Abertawe | Abertawe |
| Volcano | Abertawe |
| Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | Aberystwyth |
| Creu Cymru | Aberystwyth |
| Prifysgol Aberystwyth | Aberystwyth |
| Indycube, Aberystwyth | Aberystwyth |
| Indycube, Arbeth | Arberth |
| Canolfan Grefft Bodnant craft centre | Bae Colwyn |
| TAPE | Bae Colwyn |
| Neuadd Hendre | Bangor |
| Pontio | Bangor |
| Tŷ Gwydr / The Greenhouse | Bangor |
| Indycube Banwen yng Ngweithdy Dove | Banwen |
| Oriel Celf Ganolog Y Barri | Y Barri |
| Neuadd Ogwen | Bethesda |
| Flicks in the Sticks/Arts Alive | Bishops Castle |
| Cell B | Blaenau Ffestiniog |
| Plas Tan y Bwlch | Blaenau Ffestiniog |
| Yr Ysgwrn | Blaenau Ffestiniog |
| Cynyrchiadau 4π Cyf | Caerdydd |
| Canolfan Gelfyddydau Chapter | Caerdydd |

| | |
|---|---|
| Clwstwr | Caerdydd |
| Coreo Cymru | Caerdydd |
| Caerdydd Creadigol | Caerdydd |
| Parth Creadigol / Creative Quarter | Caerdydd |
| Adeilad Frazer | Caerdydd |
| G39 | Caerdydd |
| Gloworks | Caerdydd |
| Grassroots | Caerdydd |
| Groundwork Pro | Caerdydd |
| Theatr Hijinx | Caerdydd |
| Indycube Fab Lab | Caerdydd |
| Indycube Lôn Fox | Caerdydd |
| Indycube, Heol y Santes Fair | Caerdydd |
| Indycube, Y Bae | Caerdydd |
| Indycube, Heol Trade | Caerdydd |
| Meanwhile Caerdydd | Caerdydd |
| Theatr Mercury Theatre | Caerdydd |
| Canolfan Entrepreneur Accelerator Nat West | Caerdydd |
| Theatr Genedlaethol Cymru / National Theatre Wales | Caerdydd |
| No Fit State Circus | Caerdydd |
| Omidaze | Caerdydd |
| Un, Heol Fox | Caerdydd |
| Producers Place | Caerdydd |
| Promo Cymru | Caerdydd |
| Rabble, 103 Stryd Biwt | Caerdydd |
| Something Creatives | Caerdydd |
| Space 2B, Y Maltings | Caerdydd |
| Spit and Sawdust | Caerdydd |
| Stiwdio Sustainable Studio | Caerdydd |
| The Boiler House | Caerdydd |
| The Bone Yard | Caerdydd |
| The Printhaus | Caerdydd |
| Y Sherman | Caerdydd |
| Tramshed | Caerdydd |
| W20, Tŷ Wellington House | Caerdydd |
| Canolfan Mileniwm Cymru | Caerdydd |
| Beth Nesaf? Caerdydd | Caerdydd |
| Oriel King Street | Caerfyrddin |

| | |
|---|---|
| Oriel Myrddin | Caerfyrddin |
| Canolfan Arloesi a Menter (Welsh ICE) | Caerffili |
| Galeri | Caernarfon |
| Indycube Cas-gwent | Cas-gwent |
| Canolfan Ucheldre | Caergybi |
| Barnabas Arts House | Casnewydd |
| Dolman | Casnewydd |
| Indycube, Casnewydd Canolog | Casnewydd |
| Indycube, Y Siambrau Brenhinol | Casnewydd |
| Innovation Point Ltd | Casnewydd |
| Le Public Space | Casnewydd |
| Theatr Glan yr Afon | Casnewydd |
| The Alacrity Foundation | Casnewydd |
| Neuadd Gwyn Hall | Castell Nedd |
| Sefydliad y Glowyr Coed Duon | Coed Duon |
| Craft Cymru | Conwy |
| Theatr Congress | Cwmbrân |
| Indycube Cwmbrân | Cwmbrân |
| Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange | Cwmbrân |
| The Carriage Works | Dinbych |
| Indycube, Canolfan Arloesi’r Bont / Bridge IC | Doc Penfro |
| Tŷ Siamas | Dolgellau |
| indycube Y Drenewydd / Canolfan Fenter | Y Drenewydd |
| Hafren | Y Drenewydd |
| Parc Gwyddoniaeth Menai | Gaerwen |
| Indycube Glan-bad | Glan-bad |
| EVI, Heol yr Eglwys | Glyn Ebwy |
| Indycube, Glynrhedynog | Glynrhedynog |
| Grŵp Confluence | Hwlffordd |
| Indycube, Hwlffordd | Hwlffordd |
| Caban Cyf | Llanberis |
| Y Festri | Llanberis |
| Dawns Powys – Y Ganolfan Ddawns | Llandrindod |
| Conwy Creadigol | Llandudno |
| Culture Action Llandudno (Haus of Helfa) | Llandudno |
| Stiwdios HAUS | Llandudno |
| Oriel Mostyn | Llandudno |
| Rhif 16 Sgwâr y Drindod | Llandudno |

| | |
|---|---|
| Y Ffwrnes | Llanelli |
| Canolfan Gelfyddydau Wyeside | Llanfair-ym-muallt |
| Oriel Ynys Môn | Llangefni |
| Indycube, Llanrwst | Llanrwst |
| Canolfan Fenter Maesteg | Maesteg |
| Canolfan Hwyl | Merthyr Tudful |
| Redhouse Cymru | Merthyr Tudful |
| Tec Marina | Penarth |
| Busnes Cymru - Pencoed | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Indycube, Pen-y-bont | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Canolfan Arloesi | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Canolfan Fenter y Pîl | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Canolfan Ddeori Sony | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Canolfan Fenter Tondu | Pen-y-bont ar Ogwr |
| ADDO | Pontypridd |
| Canolfan Gelfyddydau'r Muni | Pontypridd |
| Pontypridd YMCA | Pontypridd |
| The Old Courthouse (@CAT) | Pontypridd |
| Indycube, Porth | Porth |
| Y Ffatri / The Factory | Porth |
| Cwmni'r Frân Wen | Porthaethwy |
| Indycube Porthmadog | Porthmadog |
| Neuadd Dwyfor | Pwllheli |
| Siamberi Clwyd | Rhyl |
| Indycube Rhyl | Rhyl |
| Canolfan Grefft Rhuthun | Rhuthun |
| Y Gât - The Gate | Sanclêr |
| The Sprout | Tonysguboriau |
| Indycube Treharris | Treharris |
| Indycube, Treharris | Treharris |
| Theatr Park & Dare (+ Y Colesiwm) | Treorci |
| Indycube Tyddewi | Tyddewi |
| Oriel y Parc | Tyddewi |
| Tŷ Pawb | Wrecsam |
| Y Ffowndri | Wrecsam |
| Un Deg Un | Wrecsam |
| Canolfan Fenter Wrecsam | Wrecsam |
| Theatr Clwyd | Yr Wyddgrug |